


# YNNI CYMUNEDOL

## Cyflwr y Sector 2020

### Crynodeb Gweithredol

Adroddiad Cyflwr y Sector 2020 yw'r pedwerydd adolygiad blynyddol o'r sector ynni cymunedol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth gan ymarferwyr ynni cymunedol i wella dealltwriaeth o ynni cymunedol, a chefnogaeth iddo, trwy gydol 2019. Ymatebodd cyfanswm o 163 o sefydliadau ynni cymunedol i arolwg Cyflwr y Sector 2020 gyda data a ddarparwyd yn flaenorol gan 137 o sefydliadau eraill wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

- **Roedd 2019 yn flwyddyn o weithredaeth hinsawdd:** Cyhoeddodd senedd y DU, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban a llawer o awdurdodau lleol argyfyngau hinsawdd.
- **Roedd 2019 yn flwyddyn heriol i'r sector ynni cymunedol:** Effeithiwyd yn negyddol ar y sector gan ostyngiadau diweddar mewn cefnogaeth cymhorthdal a strategaeth aneglur gan y llywodraeth.
- **Mae ynni cymunedol yn chwarae rhan gynyddol mewn arloesi technolegol a chymdeithasol:** Mae'r sector yn datblygu modelau busnes newydd ac yn archwilio dulliau newydd arloesol i sicrhau dyfodol carbon isel.
- **Mae angen arweiniad a chefnogaeth glir ar ynni cymunedol ledled y DU:** Rhaid cefnogi'r sector i gyrchu cyfleoedd newydd sy'n dod i'r amlwg, gan sicrhau twf ac effaith hirdymor y sector.



## Negeseuon Allweddol

Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn 2019, fe wnaeth arolwg ynni cymunedol Cyflwr y Sector ddarganfod y canlynol:




Cyfanswm o 300 o grwpiau ynni cymunedol yn datblygu prosiectau carbon isel, gyda chefnogaeth 263 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.



Fe wnaeth sefydliadau cymunedol osod 15.4 MW o gapasiti cynhyrchu trydan newydd yn 2019, gan ddod â chyfanswm capasiti perchnogaeth gymunedol y DU i 264.9 MW.



Mae sefydliadau cymunedol yn berchen ar 2.1 MW o gapasiti cynhyrchu gwres, gan ddod â chyfanswm capasiti gwres cymunedol y DU i 13.1 MW.



Cyflawnwyd prosiectau effeithlonrwydd ynni gan 102 o sefydliadau cymunedol, gan ymgysylltu â 234,000 o bobl leol a darparu 28,000 o welliannau neu uwchraddiadau effeithlonrwydd ynni.



Roedd 39 o sefydliadau ynni cymunedol yn cymryd rhan weithredol mewn prosiectau storio ynni, gyda 547 kWh o storio batri wedi'i osod a buddsoddiad o dros £1m hyd at ddiwedd 2019.



Cynyddodd sefydliadau cymunedol sy'n ymwneud â phrosiectau trafndiaeth carbon isel o 62% yn 2019, gyda 47 cymuned wrthi'n weithredol yn datblygu cerbydau trydan, seilwaith gwefru a mentrau trafndiaeth gymunedol carbon isel.



Cododd sefydliadau cymunedol £3.7m mewn cyllid cam cynnar yn 2019, gyda £31.1m arall wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau ynni newydd.



Fe wnaeth cynhyrchian ynni cymunedol leihau allyriadau carbon o 65,200 tCO<sub>2</sub>e, gydag arbedion pellach yn cael eu gwneud trwy brosiectau effeithlonrwydd ynni, trafndiaeth carbon isel a phrosiectau storio ynni.



Canfuwyd mai'r rhwystrau mwyaf i ynni cymunedol yn 2019 oedd lleihau a chael gwared ar gefnogaeth cymhorthdal, yn enwedig cau'r cynllun Tariff Cyflenwi (FiT) ym mis Ebrill 2020.



Nodwyd 89 o brosiectau wedi'u gohirio yn 2019 - 64% ohonynt yn brosiectau cynhyrchu trydan - yn bennaf oherwydd cyllid cam cynnar cyfyngedig a diffyg hyfywedd ariannol.



Mewn ymateb i'r newid mewn cymorthdaliadau a'r trawsnewidiad ynni carbon isel ehangach, canfuwyd bod cymunedau'n arloesi trwy dechnolegau newydd, datblygu modelau busnes newydd ac yn gweithio trwy ddulliau partneriaeth newydd.

## Arloesi a Gwydnwch

Bydd twf parhaus y sector ynni cymunedol yn dibynnu ar egni, angerdd ac arloesedd y cymunedau a'r bobl ynddyn nhw, ochr yn ochr â gwell cefnogaeth gan y llywodraeth a'r sector. Cynnal momentwm yn wyneb rhwystrau cynyddol i hyfywedd yn ogystal â'r argyfwng iechyd byd-eang parhaus fydd y prif heriau i sefydliadau ynni cymunedol symud i mewn i ôl-gymhorthdal 2020. Er mwyn cyflawni hyn, mae cymunedau'n parhau i ymchwilio a defnyddio dulliau newydd o ddatblygu carbon isel dan arweiniad y gymuned.

Bydd nodi a sicrhau cyfleoedd arloesi yn dod â buddion i system ynni ehangach y DU yn ogystal ag effeithiau sicr ar lefel leol, megis:

- Technolegau arloesol
- Gwasanaethau ynni hyblyg
- Cyflenwad ynni lleol
- Masnachu ynni
- Ymateb ochr y galw
- Modelau busnes newydd dan arweiniad y gymuned

## Edrych Ymlaen

Yn wyneb heriau, mae cymunedau'n dal i geisio datblygu prosiectau carbon isel newydd, gan hyrwyddo newid trwy amrywiaeth o ddulliau newydd ac arloesol. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, ac i gataleiddio llwyddiant pellach yn 2020, mae'r sector ynni cymunedol angen y canlynol:

- **Gwelliannau parhaus mewn cyllid cam cynnar:** galluogi datblygu prosiectau arloesol a modelau busnes newydd dan arweiniad y gymuned.
- **Rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth yn well:** galluogi cymunedau i wneud penderfyniadau gwybodus a deall ble a sut i gyrchu cyfleoedd newydd.
- **Adeiladu capasiti:** darparu mwy o gefnogaeth ar gyfer datblygu arbenigedd, rhannu gwybodaeth a chostau craidd ar draws y sector, lleihau rhwystrau amser a chapasiti, hyrwyddo proffesiynoli a chynyddu effaith hirdymor.
- **Gwell asesiad o effaith:** darparu dulliau mwy effeithiol ac wedi'u safoni o feintioli a mynegi gwerth cymdeithasol ac effaith ynni cymunedol.



### Community Energy England

[www.communityenergyengland.org](http://www.communityenergyengland.org)

[info@communityenergyengland.org](mailto:info@communityenergyengland.org)

@Comm1NRG



### Scene

[www.scene.community](http://www.scene.community)

[info@scene.community](mailto:info@scene.community)

@Scenetwork



### Ynni Cymunedol Cymru

[www.communityenergywales.org.uk](http://www.communityenergywales.org.uk)

[info@communityenergywales.org](mailto:info@communityenergywales.org)

@CommEnergyWales